# ASESIAD O'R EFFAITH AR HAWLIAU PLANT

## Cyflwyno Fframwaith Penderfyniadau Rheoli Heintiau COVID-19 lleol ar gyfer ysgolion o hydref 2021

Rhaid anfon **pob** Asesiad o’r Effaith ar Hawliau Plant wedi’u cwblhau at flwch post CRIA@llyw.cymru.

### 1. Disgrifiwch ac eglurwch effaith y cynnig ar blant a phobl ifanc

Gwnaethom newidiadau i'n canllawiau gweithredol ar gyfer ysgolion a lleoliadau, i ddod i rym o fis Medi 2021. Yn fyr, mae'r newidiadau hyn yn golygu nad yw gorchuddion wyneb bellach yn cael eu hargymell fel mater o drefn ar gyfer staff neu ddysgwyr yn yr ystafell ddosbarth, mae ysgolion a lleoliadau'n dychwelyd i'w hamseroedd arferol ac nad oes angen grwpiau cyswllt mwyach. Gellir gweld Asesiad o'r Effaith ar Hawliau Plant ar gyfer y newidiadau hyn yma.

Cyhoeddodd y Prif Weinidog ar 6 Awst y byddai Cymru'n symud i Lefel Rhybudd Sero ar 7 Awst. Fel rhan o'r cam hwn, ni fydd yn rhaid i bob oedolyn sydd wedi cael eu brechu'n llawn a phlant dan 18 oed hunanynysu mwyach os cânt eu nodi fel cysylltiadau agos â rhywun sydd wedi profi'n bositif am Covid-19. Nid yw'r Asesiad Effaith ar Hawliau Plant hwn yn ystyried y newidiadau hyn gan eu bod wedi'u cynnwys yn yr Asesiadau Effaith a gynhaliwyd ar gyfer y cyfnodau adolygu 21 diwrnod, a gellir dod o hyd i'r rhain yma.

Rydym wedi datblygu Fframwaith Penderfyniadau Rheoli Heintiau ('Y Fframwaith') ar gyfer ysgolion a lleoliadau sy'n nodi'r trefniadau ar gyfer darparu dysgu mewn ysgolion. Bydd y Fframwaith yn galluogi ysgolion a lleoliadau i deilwra ymyriadau i adlewyrchu risgiau ac amgylchiadau lleol.

Amlinellir y cynigion cyffredinol yn gryno isod. Rydym yn derbyn yn llwyr fod gan unrhyw newid i drefniadau addysg effaith amrywiol ac eang ar wahanol grwpiau gan gynnwys dysgwyr, staff, teuluoedd a chymunedau.

### Y cynnig

Ym mis Gorffennaf 2021 cyhoeddodd y Prif Weinidog fersiwn wedi'i ddiweddaru o Gynllun Rheoli Coronafeirws Cymru, sy'n nodi'r trefniadau i symud i "lefel rhybudd sero" – cyfnod newydd sydd wedi'i gynllunio i sicrhau dull cymesur o ymdrin â COVID-19, gan adlewyrchu effaith brechu a chydbwysedd rhwng risgiau a niwed.

Mae'r Cynllun Rheoli’n nodi’r disgwyliad y dylai lleoliadau addysg weithredu mor normal â phosibl ar lefel rhybudd sero. Bydd mesurau sylfaenol gan gynnwys asesiadau risg,

hylendid, awyru ac atal presenoldeb gan unigolion sydd â symptomau COVID-19 yn parhau i fod ar waith, ond mae mesurau eraill yn cael eu llacio fel rhan o system gymesur o reolaethau. Ar gyfer ysgolion, bydd hyn yn caniatáu rhywfaint o hyblygrwydd ar gyfer penderfyniadau lleol ac ymyriadau wedi'u teilwra, gyda chymorth awdurdodau lleol, Timau Rheoli Digwyddiadau ac iechyd y cyhoedd.

Symudodd Cymru i lefel rhybudd sero ar 7 Awst 2021. Ond nid yw'r coronafeirws wedi diflannu ac mae'n parhau beri risg i'n hiechyd. Bwriad y Fframwaith yw caniatáu i rai mesurau gael eu dwysáu/llacio yn dibynnu ar lefel y risgiau a nodwyd yn lleol. Gallai'r mesurau hyn gynnwys gwisgo gorchuddion wyneb a defnyddio profion cyflym.

Llywodraeth Cymru fydd yn pennu lefel risg gyffredinol Cymru a chaiff ei chyfleu i bawb.

Os asesir, drwy wybodaeth leol, fod y lefel risg – ar gyfer rhanbarth, ardal neu ysgol unigol - yn wahanol i'r lefel risg genedlaethol, er enghraifft, oherwydd achos mewn ysgol neu glwstwr posibl, bydd ysgolion yn cael cymorth i adolygu eu hasesiad risg a rhoi ymyriadau cymesur ychwanegol wedi'u teilwra ar waith. Byddai unrhyw benderfyniad i argymell ailgyflwyno ymyriadau wedi'u teilwra am gyfnod, fel gorchuddion wyneb neu grwpiau cyswllt, yn cael eu gwneud gan yr ysgol neu'r lleoliad yn lleol mewn trafodaeth ag iechyd y cyhoedd, y gwasanaeth Profi, Olrhain, Diogelu a'r awdurdod lleol (ni fydd disgwyl i'r ysgol wneud penderfyniadau ar eu pen eu hunain).

**Beth mae hyn yn ei olygu i blant a phobl ifanc?**

**Egwyddorion cyffredinol**

1. Dylai plant a phobl ifanc fod yn ddiogel, a chael eu gweld, eu clywed, eu meithrin a'u datblygu.
2. Dylai plant allu mynd i'r ysgol a lleoliad gofal plant (gan gynnwys Dechrau'n Deg).
3. Dylai plant allu mynd allan i chwarae a gwneud ymarfer corff.
4. Dylid caniatáu i blant iau, dan 12 oed, gymysgu'n rhydd.
5. Dylai gwasanaethau sy'n cefnogi teuluoedd barhau i weithredu a gallu cynnig gwasanaethau wyneb yn wyneb lle mae angen y plentyn/teulu yn cyfiawnhau hynny. Efallai y bydd angen cymorth ar deuluoedd dan anfantais i ddefnyddio gwasanaethau ar-lein – gan gynnwys cyfarpar TG a/neu ‘data’.
6. Dylai plant ag anghenion ychwanegol gael yr asesiadau a'r cymorth sydd eu hangen arnynt – gall hyn gynnwys swigen gefnogaeth ehangach ar gyfer teuluoedd/gwasanaethau er mwyn sicrhau na chaiff yr un teulu ei adael i ymdopi ar ei ben ei hun – gall olygu grŵp mwy yn mynd allan i wneud ymarfer corff i gefnogi'r plentyn.
7. Ni ddylai'r un plentyn fynd heb fwyd.
8. Dylai fod cymorth i rieni ar gael drwy amrywiaeth o ddulliau, gan gynnwys mamau/rhieni newydd.
9. Dylid cynnal asesiadau o ddatblygiad yn y blynyddoedd cynnar fel mater o drefn (wyneb yn wyneb lle bo angen yn unol â mesurau diogelu rhag COVID-19) a rhoi ymyriadau ar waith (e.e. iaith a lleferydd, golwg a chlyw).
10. Dylid cyfathrebu ynghylch pob un o'r uchod yn glir, gan gynnwys gyda’r plant a’r pobl ifanc.
11. Os caiff cyfyngiadau rhybudd lefel 4 eu cyflwyno yn y dyfodol:

- Dylid rhoi blaenoriaeth i blant agored i niwed drwy ddull gweithredu amlasiantaethol.
- Dylai fod cynllun cymorth ar waith ar gyfer plant ag anghenion dysgu penodol/ychwanegol.
- Dylid sicrhau bod gan blant gyfarpar TG a digon o ddata i'w galluogi i gymryd rhan mewn gwersi a chael gafael ar adnoddau addysgol ar-lein, yn ogystal â chysylltu â'u ffrindiau.
- Dylid cynyddu nifer y gwasanaethau trydydd sector, gwasanaethau mewn ysgolion a gwasanaethau iechyd meddwl ar-lein. Dylid gweithredu ar sail risg i sicrhau bod y bobl ifanc fwyaf agored i niwed yn parhau i gael eu cefnogi gan wasanaethau iechyd meddwl y GIG.
- Dylid cynnig cymorth ychwanegol i blant o deuluoedd nad Cymraeg/ Saesneg yw eu hiaith gyntaf, ochr yn ochr â'u rhieni.
- Dylid atgoffa pawb i sicrhau bod plant a phobl ifanc yn ddiogel ac yn gwybod i ble y gallant droi am help neu i drafod pryderon.
- Dylid cyfathrebu â phlant a phobl ifanc mewn iaith gysurlon, hawdd ei deall, ac egluro'r hyn sy'n digwydd a pham.

Nod y Fframwaith yw galluogi awdurdodau lleol ac ysgolion i ddeall sut y dylid teilwra rhai mesurau yn dibynnu ar lefel y risg, gyda'r nod o alluogi ysgolion i weithredu ar sail 'busnes ag arfer' cyn belled ag y bo modd (gan gynnwys darparu clybiau brecwast a chlybiau ar ôl ysgol am ddim, gweithgareddau allgyrsiol a phynciau ymarferol) er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i bob dysgwr drwy ystyried eu hanghenion addysgol a'u lles drwy reoli risgiau parhaus COVID-19 mor ddiogel â phosibl (fel gyda heintiau eraill) a sicrhau eglurder o ran y camau gweithredu sydd eu hangen os oes achos yn yr ysgol.

Gofynnodd ymgynghoriadau *Coronafeirws a Fi* Comisiynydd Plant Cymru gyda phlant a phobl ifanc (Mai 2020 a Ionawr 2021) am farn a phrofiadau 19,737 o blant a phobl ifanc 3-18 oed yn ystod y cyfyngiadau COVID. Ym marn pobl ifanc (12-18), tair effaith fwyaf y rheolau aros gartref oedd 'methu treulio amser gyda ffrindiau' (72%), 'methu ymweld ag aelodau o'r teulu' (59%) a 'chau ysgol neu goleg' (42%). Mae'r adroddiad yn amlinellu yn ei ganfyddiadau cryno bod bywyd wedi bod yn anodd ar y cyfan i bob grŵp oedran gyda llawer yn mynegi rhwystredigaeth a weithiau dicter am effaith y pandemig ar eu bywydau. Siaradodd llawer am golli eu ffrindiau, athrawon, ysgolion a theuluoedd.

Trefnwyd grwpiau ffocws gyda phlant a phobl ifanc gan Plant yng Nghymru a swyddfa Comisiynydd Plant Cymru ym mis Gorffennaf 2021 i gael eu hadborth ar drefniadau gweithredol mewn ysgolion. Y neges gyson oedd bod disgyblion am weld cyn lleied o amharu â phosibl ar eu diwrnod ysgol, eu bod am fod yn yr ysgol a pheidio â gorfod dysgu o bell, a'u bod eisiau osgoi'r angen i hunanynysu cymaint â phosibl. Derbyniodd y disgyblion y byddai angen mesurau o hyd mewn ysgolion a lleoliadau ac na fyddai modd dychwelyd ar unwaith i'r ffyrdd o weithio cyn y pandemig. Fe wnaethant hefyd gyfeirio at yr effaith sylweddol ar eu haddysg a achoswyd gan y pandemig o ganlyniad i gau ysgolion neu golli dysgu wyneb yn wyneb oherwydd yr angen i hunanynysu.

Mae Estyn wedi cyhoeddi canfyddiadau ei waith ymgysylltu gydag ysgolion cynradd ac ysgolion uwchradd ym mis Mehefin 2021. I grynhoi, adroddodd arweinwyr ysgolion fod y cyfnod diweddaraf o ddysgu o bell wedi cael effaith andwyol ar les disgyblion. Mae un o egwyddorion arweiniol y fframwaith, sef y dylai ysgolion weithredu ar sail 'busnes fel arfer' cyn belled ag y bo modd, yn debygol o wella lles cyffredinol ac iechyd meddwl i ddysgwyr.

Nododd adroddiad a gyhoeddwyd gan BBC Plant Mewn Angen yn ystod cyfnod cynnar y pandemig gyfres o themâu sy'n dangos sut yr oedd Covid-19 yn effeithio ar blant a phobl ifanc sy'n wynebu heriau yn eu bywydau, a fyddai'n gyffredin mewn lleoliadau addysgol:

1. Unigedd – roedd plant a theuluoedd yn colli cysylltiadau personol, perthnasoedd a chefnogaeth gan oedolion a chyfoedion dibynadwy y tu allan i'r cartref.
2. Mwy o heriau i les emosiynol ac iechyd meddwl - roedd y pandemig yn effeithio ar iechyd meddwl presennol ac roedd materion newydd yn dod i'r amlwg i blant a'u rhieni. Roedd pryder, ofn a straen yn bryderon penodol.
3. Pwysau ar berthnasoedd teuluol - roedd teuluoedd dan bwysau, o anawsterau'n ymdopi â straen a phryder i argyfwng. Roedd mwy o wrthdaro a pherthnasoedd anodd, tra bod y seibiant i blant a rhieni yn lleihau.
4. Mwy o amlygiad i niwed - roedd plant yn wynebu mwy o risgiau o fewn teuluoedd a'r tu allan i'r cartref, e.e. gyda mwy o amser ar-lein a methu â chael mynediad i fannau diogel.
5. Anghenion sylfaenol yn anoddach i'w diwallu - roedd plant a theuluoedd yn wynebu newyn a mwy o galedi ariannol. Daeth mynediad digidol yn angen sylfaenol yn y cyfnod clo.
6. Risgiau i les corfforol - roedd lles corfforol plant mewn perygl drwy lai o faeth neu weithgarwch corfforol ar gyfer ffitrwydd, i'r rhai â chyflyrau iechyd, o'r pandemig ei hun.

Cyhoeddodd y Gymdeithas y Plant adroddiad a oedd yn nodi y gallai cau ysgolion, er ei fod yn ffordd bwysig o atal lledaeniad COVID-19, arwain at fwy o arwahanrwydd cymdeithasol i bobl ifanc. Fel y nodwyd yn gynharach, bydd egwyddorion arweiniol y fframwaith yn helpu i alluogi ysgolion i weithredu ar sail 'busnes ag arfer' cyn belled ag y bo modd drwy reoli risgiau parhaus COVID-19 mor ddiogel â phosibl.

## 2. Eglurwch sut y mae'r cynnig yn debygol o effeithio ar hawliau plant

| Erthygl | Disgrifiad | Cysylltiadau i benderfyniadau |
|---|---|---|
| **2** | Mae'r Confensiwn yn berthnasol i bob plentyn heb wahaniaethu, beth bynnag fo'i ethnigrwydd, rhyw, crefydd, iaith, galluoedd neu unrhyw statws arall, beth bynnag yw eu barn neu eu dweud, beth bynnag fo'u cefndir teuluol. | Gall colli addysg, trefn a chyswllt cymdeithasol effeithio'n andwyol ar blant a phobl ifanc. Bydd y Fframwaith yn galluogi ysgolion i deilwra ymyriadau i adlewyrchu risgiau ac amgylchiadau lleol a sicrhau eu bod yn aros ar agor. Fodd bynnag, rydym yn cydnabod y bydd dal yn ofynnol i rai dysgwyr hunanynysu os ydynt yn cael prawf positif, er mwyn cyfyngu ar drosglwyddo'r coronafeirws, a dylai ysgolion alluogi dysgu o bell ac ystyried anghenion addysgol a lles dysgwyr. |

| | | |
|---|---|---|
| **3** | Rhaid i fuddiannau gorau'r plentyn fod yn brif flaenoriaeth ym mhob penderfyniad a cham gweithredu sy'n effeithio ar blant. | Mae'r Fframwaith yn canolbwyntio ar gefnogi:<br><br>• ysgolion i weithredu ar sail 'busnes ag arfer' cyn belled ag y bo modd gan gynnwys darparu clybiau brecwast a chlybiau ar ôl ysgol am ddim, gweithgareddau allgyrsiol a phynciau ymarferol<br>• sicrhau'r canlyniadau gorau i bob dysgwr drwy ystyried eu hanghenion addysgol a'u lles<br>• rheoli risgiau parhaus COVID-19 mor ddiogel â phosibl yn yr un modd â heintiau eraill, a sicrhau eglurder o ran y camau gweithredu sydd eu hangen os oes achos mewn ysgol<br><br>Er na chyfeirir yn benodol at CCUHP yn y ddogfen fframwaith, mae dylanwad hawliau plant yn ddi-gwestiwn yn y dull sy'n cael ei ddefnyddio. Mae canolbwyntio ar les dysgwyr wrth wneud yr holl benderfyniadau ynghylch yr ymateb addysgol i COVID-19 yn ganolog i'r fframwaith. Bydd yn anelu at liniaru effeithiau negyddol cyfnodau cloi ar blant a phobl ifanc, gan gydnabod anghenion penodol grwpiau penodol o ddysgwyr. |
| **4** | (gweithredu'r Confensiwn)<br><br>Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod pob plentyn yn gallu mwynhau ei hawliau drwy greu systemau a phasio cyfreithiau sy'n hyrwyddo ac yn diogelu hawliau plant. | Mae'r fframwaith yn arwydd o'r disgwyliad y dylai ysgolion weithredu mor normal â phosibl ar lefel rhybudd sero. Bydd mesurau sylfaenol, gan gynnwys asesiadau risg, gwell hylendid ac awyru, ac atal unigolion sydd â symptomau COVID-19 yn parhau i fod ar waith, ond mae mesurau eraill yn cael eu llacio fel rhan o system gymesur o reolaethau.<br><br>Bydd Llywodraeth Cymru yn parhau i benderfynu ar lefel risg gyffredinol Cymru a chaiff ei chyfleu i bawb. Bydd y fframwaith yn galluogi awdurdodau lleol ac ysgolion i ddeall sut y dylid teilwra rhai mesurau yn dibynnu ar lefel y risg, pe bai'r risg leol yn wahanol i'r sefyllfa cenedlaethol (er enghraifft, ailgyflwyno gorchuddion wyneb). Hynny gyda'r nod o alluogi ysgolion i weithredu ar sail 'busnes ag arfer' cyn belled ag y bo modd (gan gynnwys darparu brecwast am ddim a chlybiau ar ôl ysgol, gweithgareddau allgyrsiol a |

| | | |
|---|---|---|
| | | phynciau ymarferol) er mwyn sicrhau'r canlyniadau gorau i bob dysgwr drwy ystyried eu hanghenion addysgol a'u lles drwy reoli risgiau parhaus COVID-19 mor ddiogel â phosibl (fel gyda heintiau eraill) a sicrhau eglurder o ran y camau gweithredu sydd eu hangen os oes achos yn yr ysgol.<br><br>Fel rhan o'n sesiynau ymgysylltu â phobl ifanc, rydym wedi derbyn sylwadau ynghylch y graddau yr oedd cau ysgolion, dysgu o bell a chyfnodau o hunanynysu wedi tarfu ar eu dysgu a'r effeithiau niweidiol i'w hiechyd meddwl.<br><br>Ym mis Mehefin 2021, ysgrifennodd y Comisiynydd Plant at y Gweinidog Addysg, yn amlinellu nifer o faterion yn ymwneud â phlant mewn ysgolion, gan gynnwys y niwed i blant sy'n gysylltiedig â hunanynysu, ac fe wnaeth hefyd herio'r ffordd 'anghymesur' y mae mesurau'n cael eu cymhwyso i bobl ifanc mewn ysgolion a'r annhegwch canfyddedig iddyn nhw o gymharu â'r rhyddid cymharol a roddir i oedolion ar yr un pryd.<br><br>Yn ogystal ag ystyriaethau iechyd cyhoeddus, mae angen ystyried effaith mesurau rheoli ar les plant a phobl ifanc hefyd. Gall amgylchedd yr ysgol ddarparu amrywiaeth o fanteision a chyfleoedd yn ogystal â dysgu, rhywbeth y mae mesurau rheoli COVID-19 wedi amharu arno. Mae hyn yn cynnwys cymysgu â charfan eang o blant, defnyddio clybiau brecwast a chlybiau ar ôl ysgol ar gyfer rhyngweithio a dysgu mwy anffurfiol. Mae'n rhaid i'r mesurau a bennir nesaf fod o fudd amlwg i'r dysgwr, yn enwedig pan all y cyfyngiadau (cau ysgolion, hunan-ynysu) gael effaith andwyol clir ar ddysgu yn ogystal â'u lles.<br><br>Mae'r Fframwaith yn nodi mesurau a ddylai fod ar waith ym mhob ysgol. Bydd y mesurau hyn yn amrywio yn dibynnu ar lefel y risg a nodir yn genedlaethol. Os asesir bod y lefel risg yn lleol – ar lefel ranbarthol, leol neu ysgol unigol - yn wahanol i'r lefel genedlaethol gyffredinol hon, bydd ysgolion yn gweithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i benderfynu sut y gallai fod angen teilwra'r mesurau hyn, gyda'r nod cyffredinol o atal tarfu ar y diwrnod ysgol a |

| | | |
|---|---|---|
| | | sicrhau'r mynediad mwyaf posibl i ystod mor eang â phosibl o brofiadau. |
| **6** | Mae gan bob plentyn yr hawl i fywyd. Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod plant yn goroesi ac yn datblygu i'w llawn botensial. | Mae diogelwch a lles meddyliol, emosiynol a chorfforol dysgwyr a staff wrth wraidd ein dull o ymdrin â threfniadau gweithredol mewn ysgolion. Yn ogystal â chael mesurau ar waith i gadw pawb yn ddiogel ac yn iach, rydym wedi ceisio darparu dull ystyriol a mesuredig i fynd i'r afael â rhai o effeithiau andwyol y mesurau sydd wedi bod ar waith yn ystod y pandemig hyd yma.<br><br>Mae'r Fframwaith yn cefnogi gweithrediadau mewn ysgolion a lleoliadau addysg eraill ac mae'n ymdrin â dull cynhwysfawr a diogel o sicrhau anghenion addysgol, iechyd a lles dysgwyr ac ymarferwyr yn amgylchedd yr ysgol drwy alluogi ysgolion i weithredu ar sail 'busnes fel arfer' cyn belled ag y bo modd gan gynnwys darparu clybiau brecwast a chlybiau ar ôl ysgol am ddim, gweithgareddau allgyrsiol a phynciau ymarferol. |
| **12** | Mae gan bob plentyn yr hawl i fynegi ei farn, ei deimladau a'i ddymuniadau ym mhob mater sy'n effeithio arnynt, ac i'w barn gael ei hystyried a'i chymryd o ddifrif | Mae ymgysylltu â phobl ifanc – fel y nodir yn y cyflwyniad – wedi llywio'r gwaith o ddatblygu'r Fframwaith.<br><br>Mae'r canllawiau dysgu i ysgolion a lleoliadau yn glir y dylai lles fod yn ganolog i'r gwaith o ailgysylltu dysgwyr. Mae'n pwysleisio pwysigrwydd rhoi amser i ddysgwyr drafod a mynegi eu profiadau, a sicrhau eu bod yn teimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi, eu clywed a bod rhywun yn gwrando arnynt. |
| **14** | (rhyddid meddwl, cred a chrefydd)<br><br>Mae gan bob plentyn yr hawl i feddwl a chredu'r hyn y mae'n eu dewis a hefyd i ymarfer eu crefydd, cyn belled â'u bod nhw ddim yn atal pobl eraill rhag mwynhau eu hawliau. | Ni fydd yr un o'r penderfyniadau polisi a glustnodwyd uchod ac yn Adran 1 yn cael effaith benodol o ran rhyddid meddwl, cred a chrefydd.<br><br>Mae'r canllawiau dysgu yn amlinellu bod angen i ymarferwyr ystyried sut i gefnogi pob dysgwr. Mae hyn yn cynnwys y rhai a allai fod yn bryderus ynghylch dychwelyd ar ôl cyfnod o hunanynysu, y rhai a allai fod wedi treulio cyfnod estynedig mewn amgylchedd yn eu cartref nad oedd yn gefnogol o'u credoau, neu sy'n gweld y posibilrwydd o ddychwelyd i'r ysgol yn fygythiad; |

| | | |
|---|---|---|
| | Rhaid i lywodraethau barchu hawliau a chyfrifoldebau rhieni i arwain eu plentyn wrth iddynt dyfu i fyny. | a'u helpu gyda'r broses o integreiddio i leoliad ffisegol ar gyfer addysg. Mae sgyrsiau am sut mae dysgwyr yn teimlo yn hollbwysig drwy gydol y cyfnod hwn ac awgrymir bod staff ysgolion a lleoliadau'n annog dysgwyr i drafod eu cwestiynau a'u pryderon. |
| **17** | Mae gan bob plentyn yr hawl i gael gwybodaeth ddibynadwy o amrywiaeth o ffynonellau, a dylai llywodraethau annog y cyfryngau i ddarparu gwybodaeth y gall plant ei deall. | Roedd yr arolwg diweddaraf 'Coronafeirws a Fi' yn gofyn sut y dewisodd plant a phobl ifanc gael mynediad at ffynonellau gwybodaeth. Dyma a adroddwyd ar gyfer plant 7-11 oed: drwy deulu (82%), ac wedyn y teledu (58%). Dim ond 4% o'r ymatebwyr a nododd nad oeddent yn cael unrhyw wybodaeth. Mae gan bobl ifanc sy'n cymryd yr arolwg i'r rheini sydd rhwng 12-18 oed ffynonellau gwybodaeth tebyg (73% a 61% yn y drefn honno) ond maent yn fwy tebygol o fod yn cael gwybodaeth ar-lein o wefannau newyddion, apiau a chyfrifon.<br><br>Mae camau'n cael eu cymryd i sicrhau mynediad parhaus at wybodaeth ddibynadwy a hygyrch. Mae hyn wedi cynnwys:<br>• negeseuon ar y cyfryngau cymdeithasol sydd wedi'u targedu'n benodol at blant a phobl ifanc yn ogystal â'u rhieni / gofalwyr<br>• ymgyrch tawelu meddwl wedi'u targedu at gymunedau addysg<br>• llythyr 'diwedd tymor' gan Weinidog y Gymraeg ac Addysg at benaethiaid pob ysgol gynradd ac uwchradd, ysgolion arbennig ac ysgolion annibynnol am y trefniadau o fis Medi ymlaen.<br>Bydd y gwaith hwn yn parhau yn nhymor yr hydref i ddarparu'r wybodaeth a'r arweiniad diweddaraf i ddysgwyr a'u teuluoedd ar sut y bydd ysgolion yn parhau i weithredu'n ddiogel.<br><br>Rydym yn parhau i gyhoeddi ar ein gwefan yr wybodaeth ddiweddaraf am yr ymateb i bandemig COVID-19 a'r camau sydd wedi'u cymryd gan y sector addysg. Caiff hyn ei ategu gan ohebiaeth ac ymholiadau drwy'r ganolfan cyswllt cyntaf, y mae rhai ohonynt oddi wrth blant. |

| | | |
|---|---|---|
| **18** | Mae'r ddau riant yn rhannu'r cyfrifoldeb am fagu eu plentyn a dylent bob amser ystyried yr hyn sydd orau i'r plentyn. Rhaid i lywodraethau gefnogi rhieni drwy greu gwasanaethau cymorth i blant a rhoi'r gefnogaeth sydd ei angen ar rieni i fagu eu plant. | Rydym yn cydnabod bod cyfathrebu rhwng y Llywodraeth, ysgolion a lleoliadau, a rhieni a gofalwyr a'u plant wedi bod yn hollbwysig drwy gydol y broses o lywio'r dull gweithredu ar gyfer cynyddu gweithrediadau mewn ysgolion a lleoliadau.<br><br>Mae cyfathrebu wedi'i dargedu at rieni a gofalwyr yn parhau, gan gynnwys drwy gyfryngau cymdeithasol a thudalennau gwe pwrpasol a negeseuon ymgyrchu. |
| **19** | (amddiffyniad rhag trais, camdriniaeth ac esgeulustod)<br><br>Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i sicrhau bod plant yn cael eu hamddiffyn rhag pob math o drais, camdriniaeth, esgeulustod a thriniaeth wael gan eu rhieni neu unrhyw un arall sy'n gofalu amdanynt. | I ambell blentyn gall peidio â bod yn eu hysgol neu eu lleoliad fod yn arbennig o niweidiol oherwydd natur amgylchedd eu cartref. Bydd plant wedi cael profiadau gwahanol ac amgylcheddau cartref gwahanol yn ystod 'cyfnodau symud' a chyfnodau hunanynysu, a chredwn y bydd egwyddorion arweiniol y fframwaith – sef i gadw ysgolion ar agor ac yn gweithredu mor normal â phosibl – yn lleihau'r amser a dreulir y tu allan i'r ysgol a bydd yn lliniaru'r effeithiau negyddol hynny.<br><br>Wrth fwrw ymlaen â hyn, mae canllawiau'n atgoffa staff mewn ysgolion a lleoliadau o'u dyletswyddau diogelu - Cadw dysgwyr yn ddiogel a Gweithdrefnau Diogelu Cymru. Mae rôl y person diogelu dynodedig (PDD) yn hanfodol a dylid rhoi gwybod i'r holl staff a dysgwyr pwy yw'r PDD a sut i gysylltu â nhw. Gall gysylltu ag oedolyn dibynadwy, neu'r PDD, fod yn anoddach gyda phellter cymdeithasol, felly gofynnwyd i ysgolion a lleoliadau ystyried sut y gall dysgwyr siarad yn breifat.<br><br>Mae gan awdurdodau lleol eisoes amrywiaeth o arferion gwaith ar waith i sicrhau y gall partneriaid diogelu gyd-weithio i gadw plant yn ddiogel.<br><br>Mae'r ddyletswydd i sicrhau mynediad parhaus i ddarpariaeth wyneb yn wyneb ar gyfer plant sy'n agored i niwed yn parhau. |

| | | |
|---|---|---|
| **23** | Mae gan blentyn ag anabledd yr hawl i fyw bywyd llawn a gweddus gydag urddas ac, hyd y bo modd, yn annibynnol ac i chwarae rhan weithredol yn y gymuned. Rhaid i lywodraethau wneud popeth o fewn eu gallu i gefnogi plant anabl a'u teuluoedd. | Rydym wedi sicrhau bod ysgolion yn aros ar agor i blant sy'n agored i niwed drwy gydol y pandemig, gan gynnwys cyfnodau o gau ysgolion yn gyffredinol.<br>Ystyriodd adroddiad a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru ar sut mae'r pandemig wedi effeithio ar fywydau pobl anabl yng Nghymru dystiolaeth gan y Comisiwn Cydraddoldeb a Hawliau Dynol a Chynghrair Anghenion Dysgu Ychwanegol y Trydydd Sector. Roedd hyn yn awgrymu bod angen cymorth ychwanegol ar ddisgyblion anabl mewn ysgolion ac nid oeddent bob amser yn derbyn hyn yn ystod y pandemig. Un o'r egwyddorion arweiniol y tu ôl i'r Fframwaith yw galluogi ysgolion i weithredu ar sail 'busnes fel arfer' cyn belled ag y bo modd. |
| **24** | Mae gan bob plentyn yr hawl i'r iechyd gorau posibl. Rhaid i lywodraethau ddarparu gofal iechyd o ansawdd da, dŵr glân, bwyd maethlon, ac amgylchedd glân ac addysg ar iechyd a lles fel y gall plant aros yn iach. | Mae'r Fframwaith yn cydnabod, pan fyddwn yn cyfeirio at iechyd a lles, ei fod yn mynd y tu hwnt i beryglon ffisegol haint COVID-19. I ddysgwyr, bydd goblygiadau corfforol, meddyliol ac emosiynol ehangach ymbellhau cymdeithasol, y cyfnod clo a phrofedigaeth posibl yn llawer mwy perthnasol, ynghyd â'r goblygiadau o ran perthnasoedd. |
| **28** | Mae gan bob plentyn yr hawl i addysg. | Mae'r hawl hon wedi bod yn un o'r ffactorau sylfaenol i ddychwelyd ysgolion i weithrediadau mor normal â phosibl.<br><br>Mae’r canllawiau dysgu yn egluro’r disgwyliadau sydd ar ymarferwyr. Yn ogystal â'r pwyslais ar les, gofynnwyd i ysgolion a lleoliadau, fel bo’n briodol, ddechrau ehangu dysgu ac addysgu a chefnogi pontio fel bod dysgwyr (cyn belled ag y bo modd) yn barod ar gyfer y flwyddyn academaidd nesaf ac yn gallu ymgysylltu â dull dysgu cyfunol.<br><br>Mae'r canllawiau'n glir bod gan bob dysgwr hawl i gael cefnogaeth yn eu dysgu gan weithwyr proffesiynol dibynadwy ar yr adeg hon a chredwn mai'r ffordd orau o ddarparu hynny yw trwy addysgu a dysgu ar y safle. |

| | | |
|---|---|---|
| | | Mae'r Fframwaith yn nodi mesurau a ddylai fod ar waith ym mhob ysgol. Bydd y mesurau hyn yn amrywio yn dibynnu ar lefel y risg a nodir yn genedlaethol. Os asesir bod y lefel risg yn lleol – ar lefel ranbarthol, leol neu ysgol unigol - yn wahanol i'r lefel genedlaethol gyffredinol hon, bydd ysgolion yn gweithio gydag awdurdodau lleol a phartneriaid eraill i benderfynu sut y gallai fod angen teilwra'r mesurau hyn, gyda'r nod cyffredinol o atal tarfu ar y diwrnod ysgol a sicrhau mynediad i ystod mor eang â phosibl o brofiadau. |
| **29** | Nodau addysg<br><br>Rhaid i addysg ddatblygu personoliaeth, doniau a galluoedd pob plentyn i'r eithaf. Rhaid iddo annog parch y plentyn at hawliau dynol, yn ogystal â pharch at eu rhieni, eu diwylliannau eu hunain a diwylliannau eraill, a'r amgylchedd. | Mae'r erthygl hon wrth wraidd addysg yng Nghymru, a 4 diben y Cwricwlwm i Gymru sy'n sail i'n rhaglen o ddiwygiadau addysg. Mae ysgolion a lleoliadau wedi datblygu dysgu a dulliau newydd i ddiwallu anghenion eu dysgwyr mewn ymateb i'r pandemig. Wrth wneud hynny, cyfeirir ymarferwyr at yr ystod lawn o ganllawiau sydd bellach ar gael iddynt ar y cwricwlwm, gan gynnwys sut y gall y Cwricwlwm i Gymru gefnogi dysgwyr ar hyn o bryd. Cyhoeddwyd Cynllun Gweithredu’r Cwricwlwm i Gymru ar 26 Ionawr 2021 a phasiwyd Deddf Cwricwlwm ac Asesu (Cymru) ym mis Ebrill 2021.<br><br>Gan gydnabod yr heriau penodol a wynebir gan ysgolion uwchradd yn ystod y pandemig, cyhoeddodd Gweinidog y Gymraeg ac Addysg ym mis Gorffennaf y byddai gan ysgolion uwchradd yr opsiwn i barhau â'u cynlluniau presennol ar gyfer cyflwyno’r Cwricwlwm newydd i Gymru, gan ddechrau yn 2022 gyda Blwyddyn 7, neu ddechrau yn 2023 gyda Blynyddoedd 7 ac 8 gyda'i gilydd. |
| **30** | Plant o grwpiau lleiafrifol neu frodorol<br><br>Mae gan bob plentyn yr hawl i ddysgu a defnyddio iaith, arferion a chrefydd eu teulu, p'un a yw'r rhain yn cael eu rhannu gan | Ni fwriedir i'r penderfyniadau polisi a nodir yn yr Asesiad Effaith ar Hawliau Plant gael effaith gadarnhaol na negyddol o ran yr erthygl hon. Fodd bynnag, cydnabyddir y gallai fod rhai effeithiau gwahaniaethol ar gyfer grwpiau penodol o bobl sy'n deillio o'r trefniadau gweithredol mewn ysgolion a lleoliadau. |

| | | |
|---|---|---|
| | fwyafrif bobl y wlad lle maent yn byw ai peidio. | Mae'r canllawiau dysgu yn amlinellu y bydd angen i ddarparwyr ystyried sut i gefnogi pob dysgwr. Bydd sgyrsiau am sut maent yn teimlo am y gofynion newydd o fis Medi yn hollbwysig drwy gydol y cyfnod hwn a dylai staff annog dysgwyr i drafod eu cwestiynau a'u pryderon. Byddwn yn monitro'r sefyllfa'n agos o ran dysgu'r Gymraeg ac o ran dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg. Rydym hefyd yn cydnabod bod iaith y cartref i rai grwpiau o ddysgwyr yn wahanol i brif iaith eu haddysg (Cymraeg a Saesneg) a bydd dychwelyd yn llawn i addysgu ar y safle o fudd sylweddol. |
| **31** | Hamdden, chwarae a diwylliant<br><br>Mae gan bob plentyn yr hawl i ymlacio, chwarae a chymryd rhan mewn ystod eang o weithgareddau diwylliannol a chelfyddydol. | Mae'r effaith negyddol ar les diwylliannol, fel y gwelwyd yn ystod y cyfnodau o gau ysgolion a dysgu o bell, wedi lleddfu wrth ddychwelyd i addysgu wyneb yn wyneb ac wrth i ysgolion fabwysiadu ffordd 'normal newydd' o weithio drwy ddefnyddio'r Fframwaith i nodi risgiau lleol a chymryd camau lliniaru priodol i aros ar agor. Mae chwarae a dysgu yn yr awyr agored yn cynnig cyfleoedd eang i gefnogi dysgu yn ogystal â gwella perthnasoedd dysgwyr a'u lles corfforol, meddyliol ac emosiynol. Felly, dylid eu hystyried yn ganolog i unrhyw ddull o gynllunio ystyriaethau ar gyfer ysgolion. Un o egwyddorion arweiniol y fframwaith yw rheoli risgiau parhaus COVID-19 mor ddiogel â phosibl ac mae treulio cymaint o amser â phosibl yn yr awyr agored yn cefnogi hyn. |